



Government
Equalities Office

Putting equality at the heart of government

**Ymgynghoriad y DU
ar Gynnig y Comisiwn
Ewropeaidd ar gyfer
Cyfarwyddeb Triniaeth
Gyfartal**

**Dogfen
Ymgynghori**

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Diben yr ymgynghoriad	3
Amseriad	3
Ymateb i'r ymgynghoriad	3
Rhyddid Gwybodaeth	4
Cefndir	5
Cyfarwyddebau Erthygl 13	5
Unfrydedd	6
Cyd-destun y DU	7
Ymagwedd y Llywodraeth	7
Mesur Cydraddoldeb i Brydain Fawr	8
Y Sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon	8
Effaith ar gyfraith y DU	9
Esboniad manwl am y darpariaethau penodol ynghyd â dadansoddiad o ddeddfwriaeth berthnasol y DU	11
Cyflwyniad	11
Erthygl 1 – Diben	11
Erthygl 2 – Cysyniad o wahaniaethu	12
Erthygl 3 – Cwmpas	18
Erthygl 4 – Trin pobl ag anableddau yn gyfartal	20
Erthyglau 5 – 18	22
Atodiad A: Testun Cynnig y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cyfarwyddeb Triniaeth Gyfartal fel y'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008	27
Atodiad B: Dogfennau a dolenni cysylltiedig	42
Atodiad C: Cod Ymarfer yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ar Ymgynghori	43

Cyflwyniad

Diben yr Ymgynghoriad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio'ch barn er mwyn llywio ystyriaeth bellach Llywodraeth y DU o Gyfarwyddeb arfaethedig gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE) i wahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gredo, anabledd, oedran a chyfeiriadedd rhywiol y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol.

Mae Llywodraeth y DU am ymgynghori'n benodol ynglŷn ag effaith y Gyfarwyddeb ddrafft yn y meysydd hynny lle mae ei chynigion, neu lle y gallai ei chynigion, fod yn wahanol i ddeddfwriaeth gyfredol ac arfaethedig, ac ynglŷn ag effaith y cynigion ar unigolion, busnesau ac eraill.

Amseriad

Ers cyhoeddi'r testun drafft ym mis Gorffennaf 2008, cynhaliwyd dau gyngor EPSCO a sawl gweithgor i drafod y cynnig. Mae Llywodraeth y DU wedi cyfrannu'n gadarnhaol i'r trafodaethau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau wedi arddel safbwynt tebyg i'n safbwynt ninnau ac wedi croesawu'r ffaith bod y Gyfarwyddeb yn anelu at gwblhau'r fframwaith cyfreithiol presennol drwy fynd i'r afael â'r pedair sail dros wahaniaethu sy'n weddill.

Erys llawer o faterion i'w datrys o hyd; mae'r rhan fwyaf o ddirprwyaethau wedi mynegi pryderon ynghylch cwmpas y cynnig, graddau cymhwysedd y Gymuned a chymesuroldb a sybsidiaredd. Mae llawer o ddirprwyaethau wedi gofyn am eglurhad ynghylch effaith ymarferol, ariannol a chyfreithiol y cynnig.

Oherwydd y ffactorau hyn nid yw Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd y gyfarwyddeb ynghyd ag unrhyw gostau cysylltiedig yn dod i rym cyn 2011.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Gallwch weld y ddogfen ymgynghori hon a dogfennau cysylltiedig ar-lein yn: www.equalities.gov.uk/international/eu_directive.aspx

Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau o **5 Mai i 28 Gorffennaf 2009**.

Gellir anfon ymatebion dros yr e-bost i: EUDirective@geo.gsi.gov.uk
Nodwch yn glir yn yr e-bost os yw'ch ymateb yn dod o Ogledd Iwerddon.

Gellir anfon copiâu caled i:

EU Directive Consultation Responses
Government Equalities Office
9th Floor, Eland House
Bressenden Place
London SW1E 5DU

Os ydych yn ymateb o Ogledd Iwerddon gellir anfon copiâu caled i:

Equality legislation 2
Room e 307
Castle buildings
Stormont
Belfast BT4 3SR

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad a nodwch pa gwestiynau rydych yn ymateb iddynt. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n gymwys, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Rhyddid Gwybodaeth

Efallai y bydd angen i'r wybodaeth a anfonir gennych gael ei rhoi i gydweithwyr yn Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth a'i chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion sydd wedi dod i law.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r holl wybodaeth a roddir gennych, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, os gofynnir i ni wneud hynny o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Ddeddf Diogelu Data 1998. Os ydych am i wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, sy'n ymdrin â goblygiadau cyfrinachedd ymhlith pethau eraill.

Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam y teimlwch fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ar bob achlysur. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG ei ystyried, ynddo'i hun, yn gyfrwymol ar yr adran.

Bydd yr adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o achosion golyga hyn na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partion.

Cefndir

Cyflwynwyd Erthygl 13 o Gytuniad y CE yn 1997 fel rhan o'r diwygiadau a wnaed i Gytuniad y Gymuned Ewropeaidd fel y'i gosodwyd yng Nghytuniad Amsterdam.

Mae Erthygl 13 yn caniatáu i'r Cyngor Ewropeaidd gymryd camau priodol i wrthsefyll gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol wrth weithredu'n unfrydol ar gynnig gan y Comisiwn ac ar ôl ymgynghori â Senedd Ewrop.

Mae Cyfarwyddbau blaenorol wedi cynnig diogelwch cynhwysfawr rhag gwahaniaethu ym maes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gredo. Nid oes diogelwch cynhwysfawr ar y seiliau hyn y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol. Dim ond ar sail rhyw a tharddiad hiliol neu ethnig mae diogelwch o'r fath yn bodoli.

Cafodd y Gyfarwydddeb Hil¹ ei throsi'n gyfraith y DU yn 2003. Cafodd darpariaethau'r Gyfarwydddeb Cyflogaeth Fframwaith² ynglŷn â chrefydd neu gredo a chyfeiriadedd rhywiol eu trosi'n gyfraith y DU yn 2003 a chafodd y darpariaethau ynglŷn ag oedran ac anabledd eu trosi'n gyfraith y DU yn 2006. Cafodd y Gyfarwydddeb Diwygio Triniaeth Gyfartal³ ei throsi'n gyfraith y DU yn 2005. Cafodd y Gyfarwydddeb Rhywedd⁴ ei throsi'n gyfraith y DU ym mis Ebrill 2008.

Byddai'r Gyfarwydddeb ddrafft yn ymestyn diogelwch rhag gwahaniaethu y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol ar sail oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo er mwyn sicrhau bod diogelwch cynhwysfawr ym maes cyflogaeth a thu hwnt.

Byddai'r Gyfarwydddeb ddrafft yn adeiladu ar ymagwedd a chysyniadau'r Cyfarwyddbau presennol ac yn eu datblygu megis:

Gwahaniaethu uniongyrchol
Gwahaniaethu anuniongyrchol
Aflonyddu
Camau hwyluso rhesymol⁵ ar gyfer pobl anabl
Erledigaeth
Baich Prawf

¹ 2000/43/EC.

² 2000/78/EC.

³ Cyfarwydddeb 2002/73/EC, a ddiwygiodd Gyfarwydddeb 76/207/EC. Mae'r Cyfarwyddbau hyn wedi cael eu diwygio'n Gyfarwydddeb 2006/54/EC.

⁴ 2004/113/EC.

⁵ Gelwir camau hwyluso rhesymol yn 'addasiad rhesymol' yn y DU.

Unfrydedd

Bydd y Cyngor Ewropeaidd yn cytuno ar y Gyfarwyddeb hon pan geir unfrydedd. Golyga hyn fod yn rhaid cael consensws ymhlith pob un o'r 27 o Aelod-wladwriaethau er mwyn i'r cynnig gael ei fabwysiadu.

Cyd-destun y DU

Ymagwedd y Llywodraeth

Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi nodau'r Gyfarwyddeb i ymestyn diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail crefydd neu gredo, anabled, oedran a chyfeiriadedd rhywiol ledled yr UE. Cred y Llywodraeth y gall y Gyfarwyddeb gyfrannu at Ewrop decach, a chryfach felly, drwy ddiogelwch gofynnol cyson ym mhob un o'r Aelod-wladwriaethau.

Bydd Llywodraeth y DU am ddefnyddio ei phrofiad o'r gyfraith gwahaniaethu ddomestig gyfredol, sydd eisoes yn mynd ymhellach na chyfraith gyfredol yr UE, er mwyn gweithio gyda'i phartneriaid i ddatblygu Cyfarwyddeb sy'n gryf ac yn ymarferol ac sy'n osgoi canlyniadau anfwriadol.

Mae polisi cyfle cyfartal y DU yn fater a gadwyd yn ôl ar y cyfan o dan setliad datganoli'r DU mewn perthynas â'r Alban, ac yn fater nas datganolwyd ar y cyfan mewn perthynas â setliad datganoli Cymru. O dan Ddeddf yr Alban 1998 cafodd Senedd yr Alban y pŵer i hyrwyddo cyfle cyfartal, yn enwedig o ran bodloni gofynion cyfle cyfartal. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 rhoddwyd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau priodol gyda'r nod o sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw priodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ar y cyd â Gogledd Iwerddon lle mae cyfle cyfartal yn fater a drosglwyddwyd mewn perthynas â Chynulliad Gogledd Iwerddon. Os ydych yn ymateb o Ogledd Iwerddon gellir anfon copiâu caled i:

Equality legislation 2
Room e 307
Castle buildings
Stormont
Belfast
BT4 3SR

Gellir anfon ymatebion dros yr e-bost i: EUDirective@geo.gsi.gov.uk.
Nodwch yn glir yn yr e-bost os yw'ch ymateb yn dod o Ogledd Iwerddon.

Mesur Cydraddoldeb i Brydain Fawr

Yn ei manifesto ar gyfer Etholiad Cyffredinol 2005 ymrwymodd y Llywodraeth i gyflwyno Mesur Cydraddoldeb yn y tymor Seneddol hwn i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith gwahaniaethu.

Ym mis Mehefin 2008, yng ngoleuni ymgynghori helaeth, cyhoeddodd y Llywodraeth *'Framework for a Fairer Future –The Equality Bill'* a amlinellodd y cynigion ar gyfer Mesur Cydraddoldeb newydd. Ym mis Gorffennaf 2008 cyhoeddodd y Llywodraeth ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2007.

Yn y dogfennau hyn esboniwyd bwriad y Llywodraeth i gyflwyno Mesur, a fydd, ynghyd â'i becyn cysylltiedig o fesurau, yn cryfhau diogelwch, hyrwyddo cydraddoldeb a symleiddio'r gyfraith.

Mae cynigion yn y Mesur Cydraddoldeb, a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill 2009, yn ymestyn neu'n cysoni diogelwch mewn rhai o'r meysydd lle mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn ceisio cyflwyno darpariaethau. Cyfeiriwyd at feysydd penodol lle mae'r Gyfarwyddeb ddrafft a'r Mesur Cydraddoldeb yn gorgyffwrdd drwy'r ddogfen ymgynghori am y rheswm hwn. Bydd y Llywodraeth yn ystyried ei pholisi yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn.

Bydd y Llywodraeth yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r Mesur Cydraddoldeb a'r Gyfarwyddeb a fabwysiedir yn ategu ei gilydd gan leihau costau cydymffurfiaeth. Bydd y Llywodraeth yn ceisio lleihau unrhyw newidiadau yn y gyfraith sydd eu hangen o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb.

Y Sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon

Mae'r Prif Weinidog a'r dirprwy Brif Weinidog yn ymwybodol o'r datblygiadau deddfwriaethol arfaethedig ym Mhrydain Fawr a'r Gyfarwyddeb ddrafft hon a byddant yn ystyried goblygiadau posibl y rhain i Ogledd Iwerddon maes o law.

Asesu Effaith

Ar hyn o bryd erys cryn ansicrwydd ynghylch effaith y Gyfarwyddeb arfaethedig o ystyried yr ansicrwydd o ran pa sectorau y byddai'n eu cwmpasu a natur yr eithriadau. O dan yr amgylchiadau hyn, ac o ystyried nad oes digon o dystiolaeth wrthrychol gynhwysfawr ar gael ynglŷn â chostau, risgiau a buddiannau gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran, nid oes modd cynnig asesiad credadwy o gost a budd. Mae'r asesiad dros dro o effaith ar gael yn: www.equalities.gov.uk/international/eu_directive.aspx

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad rhannol o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal ar gyfer Cyfarwyddeb arfaethedig yr UE, a ddaeth i'r casgliad y bydd angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan fod Cyfarwyddeb yr UE yn ymwneud yn benodol â phedwar maes cydraddoldeb. Mae'n bolisi gan Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y tu hwnt i'r gofynion statudol ynglŷn â hil, anabledd a rhyw. Caiff yr Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei gynnal yn ystod y trafodaethau am y Gyfarwyddeb. Mae'r Asesiad rhannol o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yn: www.equalities.gov.uk/international/eu_directive.aspx

Effaith ar gyfraith y DU

Mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn cynnig ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn rhywun neu aflonyddu ar rywun ar sail crefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn perthynas â'r canlynol:

- diogelwch cymdeithasol, gan gynnwys nawdd cymdeithasol a gofal iechyd
- manteision cymdeithasol
- addysg
- y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys tai

o fewn terfynau'r pwerau a roddwyd i'r Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r DU eisoes wedi deddfu i'w gwneud yn ofynnol i wahaniaethu ar sail anabledd, crefydd neu greddo a chyfeiriadedd rhywiol yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn. Ym Mhrydain Fawr gwnaed hyn drwy Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Rhan 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2007. Y deddfwriaeth gyfatebol i Ogledd Iwerddon yw Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Gorchymyn Cyflogaeth a Thriniaeth Deg (Gogledd Iwerddon) 1998, a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) (Gogledd Iwerddon) 2006.

Fodd bynnag, mae deddfwriaeth y DU yn wahanol i'r cynnig mewn rhai ffyrdd, gan gynnwys:

- Nid yw'r DU wedi deddfu'n benodol i wahardd aflonyddu ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu greddo yn y meysydd a gynigir yn y Gyfarwyddeb ddrafft
- Mae deddfwriaeth gyfredol y DU yn gosod dyletswyddau ar landlordiaid i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl o ran tai. Fodd bynnag byddai'r Gyfarwyddeb ddrafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU ymestyn y dyletswyddau hyn yn sylweddol
- Byddai'r Gyfarwyddeb ddrafft yn gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, yn amodol ar eithriadau penodol, i'r rhai o dan 18 oed yn benodol, mae hyn yn adlewyrchu bwriad y Llywodraeth i wneud hynny yn y Mesur Cydraddoldeb

Esboniad manwl am y darpariaethau penodol ynghyd â dadansoddiad o ddeddfwriaeth berthnasol y DU

Cyflwyniad

Hoffai'r DU geisio barn ar erthygl 2 – 4 a 15 o'r Gyfarwyddeb ddrafft yn benodol gan mai'r rhain yw'r erthyglau mwyaf perthnasol i Lywodraeth y DU.

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad ar ddiwedd pob adran.

Er bod gennym ddiddordeb penodol yn erthyglau 2 – 4 a 15 o'r Gyfarwyddeb ddrafft mae croeso i chi wneud sylwadau ar unrhyw rai o'r erthyglau eraill neu ar y Gyfarwyddeb ddrafft yn ei chyfanrwydd.

Erthygl 1: Diben

Prif ddiben y Gyfarwyddeb yw gwahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol a rhoi egwyddor triniaeth gyfartal ar waith, y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol. Ni fyddai'r Gyfarwyddeb yn gwahardd triniaeth wahanol ar sail rhyw neu hil gan fod diogelwch eisoes ar y seiliau hyn y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol.

Deddfwriaeth y DU

Mae deddfwriaeth gan y DU ar hyn o bryd sy'n gwahardd gwahaniaethu ar sail anabledd, crefydd neu gredo a chyfeiriadedd rhywiol wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, addysg, wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus ac wrth waredu a rheoli eiddo.

Ar hyn o bryd nid oes gan y DU ddeddfwriaeth sy'n gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol. Bydd y Mesur Cydraddoldeb, a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill 2009, yn gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran yn erbyn pobl 18 oed neu drosodd gan y rhai sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ac sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Ni chred Llywodraeth y DU y dylai unrhyw estyniad i ddeddfwriaeth ynglŷn â gwahaniaethu ar sail oedran gwmpasu plant na darpariaeth addysg mewn ysgolion ac felly nid yw'n bwriadu ymestyn deddfwriaeth wrthwahaniaethol i'r rhai o dan 18 oed.

Rhoddyd ystyriaeth benodol i'r ffordd y gallai deddfwriaeth ynglŷn ag oedran effeithio ar blant (o dan 18 oed). Mae oedran plentyn yn gysylltiedig iawn â'i lefel o ddatblygiad ac angen, rhywbeth nad yw'n wir yn gyffredinol o ran oedran oedolyn. Mae bron bob amser yn briodol trin plant o oed gwahanol mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u datblygiad.

Felly mae'n bwysig bod gwasanaethau i blant yn cael eu teilwra mewn ffordd sy'n briodol i'r oedran dan sylw – mae plentyn teirblwydd oed yn wahanol iawn i blentyn deg oed, neu blentyn yn ei ardddegau. Felly anaml mae egwyddor sylfaenol deddfwriaeth ynglŷn â gwahaniaethu ar sail oedran, sef na ddylid trin pobl yn wahanol ar sail eu hoedran, yn briodol i'r ffordd y trinnir plant.

Yn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Gyfraith Gwahaniaethu yn 2007, amlinellwyd bwriad y Llywodraeth i beidio â chynnwys plant mewn diogelwch rhag gwahaniaethu ar sail oedran a dadleuodd nifer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn erbyn y cynnig hwn, dadleuon a ystyriwyd yn ofalus gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddai'r mwyafrif llethol o enghreifftiau a gyflwynwyd fel tystiolaeth yn cael eu cwmpasu eisoes gan deddfwriaeth hawliau dynol gyfredol, y deddfwriaeth gyfredol ynglŷn â gwahaniaethu neu'n fanylach drwy ddyletswyddau'r sector cyhoeddus. Felly mae Llywodraeth y DU yn parhau i gredu nad yw deddfwriaeth ynglŷn â gwahaniaethu ar sail oedran yn ffordd briodol o sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu.

Erthygl 2: Cysyniad o wahaniaethu

Erthygl 2.1

Mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn diffinio egwyddor triniaeth gyfartal fel na ddylai fod gwahaniaethu uniongyrchol nac anuniongyrchol ar sail crefydd neu greddo, anabled, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol.

Erthygl 2.2

Mae Erthygl 2.2 yn rhoi diffiniadau o wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan gaiff rhywun ei drin yn llai ffafriol oherwydd oedran, anabledd, crefydd neu gredo neu gyfeiriadedd rhywiol yn unig. Ni ellir cyfiawnhau triniaeth lai ffafriol ar wahân i rai amgylchiadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail oedran (gweler Erthygl 2.6 isod)

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd rheol neu arfer, sy'n ymddangos yn niwtral, yn cael effaith arbennig o anfanteisiol mewn gwirionedd ar berson neu grŵp o bobl a chanddynt nodwedd benodol. Nid yw gwahaniaethu o'r fath yn anghyfreithlon lle y gellir ei gyfiawnhau gan nod dilys a lle mae'r modd i gyflawni'r nod hwnnw yn gymesur. Gelwir hyn yn gyfiawnhad gwrthrychol.

Erthygl 2.3

Cydnabyddir aflonyddu fel math o wahaniaethu ac fe'i gwaherddir o dan yr erthygl hon. Byddai aflonyddu yn digwydd pan geir ymddygiad nas dymunir sy'n ymwneud â chrefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol gyda'r nod neu'r effaith o amharu ar urddas unigolyn a chreu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, gwaradwyddus neu dramgwyddus.

Erthygl 2.4

Mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn nodi y caiff unrhyw gyfarwyddyd i wahaniaethu ar sail crefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol ei ddsbarthu'n achos o wahaniaethu.

Erthygl 2.5

Mae gwrthod cymryd camau hwyluso rhesymol (a elwir yn addasiad rhesymol yn y DU) yn cael ei ddiffinio'n fath o wahaniaethu am y tro cyntaf mewn Cyfarwyddeb Ewropeaidd. Mae hon yn gryfach na'r Gyfarwyddeb Cyflogaeth Fframwaith, a roddodd y dewis i Aelod-wladwriaethau o fynd i'r afael â gwahaniaethu anuniongyrchol drwy weithredu addasiadau rhesymol.

Yn y DU mae'r methiant i weithredu addasiadau rhesymol eisoes yn sefydledig fel math o wahaniaethu.

Erthygl 2.6

Fel y Gyfarwyddeb Cyflogaeth Fframwaith, mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn caniatáu i wahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran gael ei gyflawni'n wrthrychol fel sy'n digwydd ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol.

Erthygl 2.7

O ran darparu gwasanaethau ariannol, mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau wneud gwahaniaethau cymesur mewn triniaeth, sef o dan amgylchiadau lle mae'r defnydd o oedran neu anabledd yn ffactor allweddol wrth asesu risg yn seiliedig ar ddata ystadegol neu actiwaraid perthnasol a chywir.

Mae cwmni yswiriant yn codi premiymau uwch ar yrwyr o dan 25 oed. Os yw'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar asesiad risg o ddata ystadegol perthnasol a chywir sy'n dangos bod y grŵp oedran hwnnw yn fwy tebygol o gael damweiniau na gyrwyr dros 25 oed gellid caniatáu hyn.

Erthygl 2.8

Ni fyddai'r Gyfarwyddeb ddrafft yn effeithio ar fesurau cenedlaethol sy'n seiliedig ar ddiogelwch cyhoeddus, trefn gyhoeddus ac atal troseddau, diogelwch iechyd na hawliau na rhyddid pobl eraill.

Deddfwriaeth y DU

Mae deddfwriaeth y DU ynglŷn â gwahaniaethu yn gyffredinol yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol, erledigaeth ac aflonyddu ar y seiliau perthnasol.

Ond nid oes unrhyw ddarpariaethau statudol ynglŷn ag aflonyddu y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol ar sail crefydd neu gredo neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r sefyllfa o ran gwahaniaethu ar sail anabledd yn wahanol, ond yn gyffredinol, mae deddfwriaeth y DU yn gwahardd gwahaniaethu ar sail anabledd (sydd ychydig yn wahanol i'r math arferol o wahaniaethu anuniongyrchol), a'r methiant i wneud addasiadau rhesymol, yn ogystal ag erledigaeth. Bydd y Mesur Cydraddoldeb a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cyflwyno darpariaethau i wahardd aflonyddu ar sail anabledd.

Oherwydd nad yw strwythur deddfwriaeth y DU ynglŷn ag anabledd yn dilyn y model uniongyrchol ac anuniongyrchol 'clasurol' o ddeddfwriaeth ym maes gwahaniaethu, byddai'r Gyfarwyddeb fel y'i drafftwyd yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r deddfwriaeth. Fodd bynnag, yng nghyd-destun dyfarniad diweddar yn Nhŷ'r Arglwyddi ac wrth baratoi ar gyfer y Mesur Cydraddoldeb, mae'r Llywodraeth wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar y cynnig i fabwysiadu'r cysyniad o ddiogelwch rhag gwahaniaethu

anuniongyrchol ar gyfer anabledd yn y Mesur. Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad mynegwyd y farn na fyddai mabwysiadu gwahaniaethu anuniongyrchol, ynddo'i hun, yn rhoi'r diogelwch rhag gwahaniaethu y mae'r Llywodraeth yn ei geisio i bobl anabl. Ar ôl ystyried yr ymatebion, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cynnwys darpariaeth yn y Mesur Cydraddoldeb ar gyfer diogelu rhag gwahaniaethu sy'n codi o anabledd person anabl, yn ogystal â chyflwyno gwahaniaethu anuniongyrchol i roi diogelwch digonol.

Mae deddfwriaeth gyfredol y DU yn cynnwys sawl eithriad a ystyriwyd yn angenrheidiol i gydbwyso hawliau sylfaenol grwpiau gwahanol a allai wrthdaro. Er enghraifft, lluniwyd deddfwriaeth ddomestig i gael cydbwysedd rhwng hawliau Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl am barch tuag at fywyd preifat a theuluol) pobl hoyw, lesbaidd a deurywiol â hawliau Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) pobl eraill, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau ac iddynt ethos crefyddol, ynghyd â hawliau Erthygl 10 (rhyddid mynegiant) y ddau grŵp.

Yn ystod y cyd-drafodaethau bydd Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau bod y Gyfarwyddeb yn gydnaws â hawliau Aelod-wladwriaethau i gydbwyso'r hawliau hyn yn y Confensiwn.

Mae'r Gyfarwyddeb hon yn cynnig dileu aflonyddu ar sail oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gredo. Ym Mhrydain Fawr, ystyriwyd y cynnig hwn yn flaenorol fel rhan o'r ymgynghoriad cynhwysfawr ar gyfer y Mesur Cydraddoldeb. Penderfynwyd peidio â'i gynnwys ar sail cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gredo gan na nododd yr ymgynghoriad fod angen diogelwch o'r fath, yn ogystal â'r diogelwch a roddwyd eisoes drwy wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Bydd y Mesur Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran na ellir ei gyfiawnhau yn erbyn pobl 18 oed neu drosodd gan y rhai sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ac sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus. Bydd modd cynnig cyfiawnhad gwrthrychol dros wahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran. Bydd hefyd ymgynghori pellach ynglŷn â'r eithriadau y bydd eu hangen o bosibl i sicrhau y gall arferion ar sail oedran y gellir eu cyfiawnhau, megis y canlynol, barhau heb berygl o her.

- pasiau bws am ddim i bobl dros 60 oed
- prisiau gostyngol am deithio ar y rheilffyrdd i bobl ifanc
- triniaeth wahanol ar sail oedran wrth ddarparu gwasanaethau ariannol, lle y gellir cyfiawnhau hynny

- triniaeth wahanol ar sail oedran wrth werthu tai cymdeithasol, lle y gellir cyfiawnhau hynny i gadw stoc o eiddo sy'n addas ar gyfer grwpiau oedran penodol

Yn ystod y cyd-drafodaethau, bydd Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau bod y mathau hyn o eithriad yn gydnaws â'r Gyfarwyddeb.

Yn y DU, bydd eithriadau penodol i'r gyfraith newydd ar sail oedran yn cael eu nodi mewn Rheoliadau a wneir o dan bŵer yn y Mesur Cydraddoldeb (bydd y Rheoliadau yn diwygio'r Ddeddf Cydraddoldeb). Er mwyn rhoi amser i ddarparwyr gwasanaethau fynd i'r afael â'r materion ymarferol a sefydliadol bydd cyfnod pontio cyn i'r gwaharddiadau ddod i rym.

Cwestiwn:

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu ymestyn diogelwch annibynnol rhag aflonyddu ar sail crefydd neu gredo a chyfeiriadedd rhywiol y tu hwnt i faes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol. Gofynnodd y Llywodraeth am dystiolaeth o'r angen am hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus blaenorol ar y cynigion ar gyfer Mesur Cydraddoldeb newydd ym Mhrydain Fawr yn 2007 ond nis darparwyd. Fodd bynnag hoffem glywed a oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol newydd sy'n awgrymu bod angen y ddeddfwriaeth hon.

- 1) Pa dystiolaeth ddiweddar sydd gennych o achosion o aflonyddu a fyddai'n cael eu gwahardd yn rhinwedd y Gyfarwyddeb ond na fyddent yn cael eu gwahardd ar hyn o bryd gan gyfraith gwahaniaethu'r DU ar sail a) crefydd neu gredo a b) cyfeiriadedd rhywiol?
- 2) A ydych yn cefnogi'r cynnig yn y Gyfarwyddeb i ymestyn diogelwch rhag aflonyddu ar sail a) crefydd neu gredo a b) cyfeiriadedd rhywiol? Eglurwch pam.
- 3) A oes gennych bryderon ynglŷn â'r cynnig? Eglurwch pam.

Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i wahardd gwahaniaethu ar sail oedran yn erbyn oedolion yn dilyn ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Gyfraith Gwahaniaethu. Cred y Llywodraeth y dylid caniatáu triniaeth wahanol ar sail oedran wrth ddarparu gwasanaethau ariannol a gwasanaethau eraill lle y gellir cyfiawnhau hynny.

Bydd Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yn ymgynghori yn ystod yr haf ar yr egwyddorion a'r polisi i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran yn erbyn pobl 18 oed neu drosodd na ellir ei gyfiawnhau. Cyn penderfynu ar bolisi domestig, a gaiff ei lunio ar ôl yr ymgynghoriad ar oedran, rydym yn ceisio barn ragarweiniol er mwyn llywio trafodaethau â phartneriaid yn Ewrop.

- 4) Pa driniaeth wahanol ar sail oedran y gellir ei chyfiawnhau wrth ddarparu gwasanaethau'n gyffredinol a gwasanaethau ariannol yn benodol? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch ateb.
- 5) Beth, yn eich barn chi, fyddai'r ffordd orau i'r Gyfarwyddeb adlewyrchu'r bwriad i ddileu gwahaniaethu ar sail oedran na ellir ei gyfiawnhau mewn gwasanaethau'n gyffredinol ac mewn gwasanaethau ariannol yn benodol?

Erthygl 3: Cwmpas

Mae'r Gyfarwydddeb yn gwahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gredo, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn perthynas â'r canlynol:

- diogelwch cymdeithasol, gan gynnwys nawdd cymdeithasol a gofal iechyd
- manteision cymdeithasol
- addysg
- y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys tai

o fewn terfynau'r pwerau a roddwyd i'r Gymuned Ewropeaidd.

Golyga hyn mai dim ond gwahaniaethu yn y meysydd hyn i'r graddau y mae gan y Gymuned gymhwysedd y gall y Gyfarwydddeb ei wahardd. Felly, er enghraifft, o dan Erthygl 149 o'r Cytuniad, mae cymhwysedd y Gymuned yn gyfyngedig i gyfrannu at ddatblygu addysg o safon ac annog a chynorthwyo Aelod-wladwriaethau o ran eu cyfrifoldeb eu hunain am gynnwys addysgu, a threfnu cyfundrefnau addysgol, gan gynnwys darparu addysg anghenion arbennig. Yn yr un modd, fe'i gwnaed yn glir o dan Erthygl 152(5) o'r Cytuniad mai mater i Aelod-wladwriaethau yw trefnu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal meddygol.

O ran mynediad at nwyddau a gwasanaethau, dim ond gweithgareddau proffesiynol neu fasnachol a gwmpesir, p'un a ydynt yn cael eu darparu gan y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol. Nod y Gyfarwydddeb ddrafft yw sicrhau na chaiff trafodion rhwng unigolion preifat sy'n gweithredu'n breifat eu cwmpasu.

Byddai trafodion preifat yn cynnwys:

- gosod ystafell ar rent i letywr mewn tŷ preifat;
- gwerthu nwyddau sy'n eiddo preifat megis ceir, setiau teledu neu gyfarpar tŷ.

Mae'r Gyfarwydddeb ddrafft yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethau mewn triniaeth o ran mynediad at sefydliadau addysg ar sail crefydd neu gredo.

Nodir yn benodol bod y meysydd canlynol y tu hwnt i gwmpas y Gyfarwyddeb ddrafft:

- Statws priodasol, teuluol a hawliau cenhedlu
- Gwahaniaethau mewn triniaeth ar sail cenedligrwydd
- Cyfreithiau cenedlaethol sy'n ymwneud â natur seciwlar y Wladwriaeth a'i sefydliadau

Deddfwriaeth y DU

Mae deddfwriaeth ynglŷn â gwahaniaethu yn y DU yn gwahardd gwahaniaethu yn y meysydd canlynol yn gyffredinol: cyflogaeth (a meysydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth); hyfforddiant galwedigaethol (gan gynnwys addysg bellach ac uwch); addysg mewn ysgolion; darpariaeth nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau; clybiau aelodau preifat; gwaredu a rheoli eiddo; ac arfer swyddogaethau cyhoeddus (er nad yw darpariaeth yn unffurf yn y meysydd hyn mewn perthynas â'r seiliau a ddiogelir gan gyfraith gwahaniaethu). Mae deddfwriaeth benodol hefyd yn gosod rhwymedigaethau cadarnhaol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mae gan y DU rai pryderon ynglŷn â graddau cymhwysedd y Gymuned mewn perthynas â rhai elfennau o'r Gyfarwyddeb ddrafft y tu hwnt i'r cyflenwad o nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Cred y DU ei bod yn bwysig bod Aelod-wladwriaethau yn cadw'r gallu i benderfynu ar y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Er bod y DU yn cefnogi nodau'r Gyfarwyddeb, rydym yn pryderu y gallai cyfeiriad penodol at dai arwain at oblygiadau anffafriol i ddarparwyr tai ac y gallai gyfyngu ar opsiynau pobl yn groes i'r hyn a fwriedir.

Nid ydym yn cynnig gwahardd gwahaniaethu ar sail oedran o ran gwaredu a rheoli tai cymdeithasol fel rhan o'r Mesur Cydraddoldeb, gan nad ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu niweidiol.

Cwestiynau:

- 6) O gofio terfynau cymhwysedd y Gymuned, ac ar yr amod y ceir eglurhad ynglŷn â'r cynigion mewn perthynas â thai, fel y'i disgrifir uchod, a allwch roi enghreifftiau o effeithiau ymarferol y Gyfarwyddeb yn y meysydd canlynol:
 - gofal iechyd
 - addysg
 - tai

- 7) A oes gennych unrhyw dystiolaeth am unrhyw wahaniaethu niweidiol ar sail oedran o ran darparu tai cymdeithasol?

Erthygl 4: Trin pobl ag anabledau yn gyfartal

Mae'r Erthygl hon yn gosod rhwymedigaeth gyffredinol a rhwymedigaeth benodol i sicrhau y caiff pobl anabl eu trin yn gyfartal mewn perthynas â'r nwyddau a'r gwasanaethau a gwmpesir yn y Gyfarwyddeb ddrafft.

Mae'r rhwymedigaeth gyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i gamau, gan gynnwys addasiadau priodol, gael eu cymryd ymlaen llaw ('drwy ragflaenori') er mwyn sicrhau mynediad effeithiol i bobl anabl at ddiogelwch cymdeithasol, manteision cymdeithasol, gofal iechyd, addysg a nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd – gan gynnwys tai. Mae'r rhwymedigaeth gyffredinol hon yn ddarostyngedig i amodau lle y byddai'n gosod baich anghymesur neu lle y byddai'n gofyn am newidiadau sylfaenol i'r cynnyrch neu'r gwasanaeth.

Y rhwymedigaeth benodol yw dyletswydd i gymryd camau lle y bo eu hangen yn ôl yr achos unigol er mwyn sicrhau mynediad anwahaniaethol effeithiol. Gelwir hyn yn 'camau hwyluso rhesymol' (a elwir yn 'addasiad rhesymol' yn y DU), a byddai'n cynnwys gwneud addasiadau priodol. Mae'r rhwymedigaeth, sy'n ddarostyngedig i amodau lle y byddai'n gosod baich anghymesur, yn darparu bod gwrthod cymryd camau hwyluso rhesymol yn fath o wahaniaethu.

Gellid dehongli bod y Gyfarwyddeb ddrafft yn ei gwneud yn ofynnol i addasu eiddo newydd ac eiddo sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys tai ac felly gallai gael effaith bellgyrhaeddol ar ddarparwyr tai gan gynnwys y rhai yn y sector preifat.

Mae Erthygl 4 yn rhestru nifer o ffactorau y dylid eu hystyried er mwyn asesu a fyddai'r mesurau sy'n ofynnol uchod (mynediad drwy ragflaenori a chamau hwyluso rhesymol) yn gosod baich anghymesur, sef maint ac adnoddau'r sefydliad, ei natur, y gost amcangyfrifedig, cylch bywyd y nwyddau, a gwasanaethau, a buddiannau posibl gwell mynediad i bobl anabl. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Deddfwriaeth y DU

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn cynnig diogelwch cynhwysfawr rhag gwahaniaethu i bobl anabl ac mae'n cynnwys dyletswydd, yn y rhan fwyaf o achosion, i wneud addasiadau rhesymol rhagflaenorol ar gyfer pobl anabl. Mewn perthynas ag eiddo, nid yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol yn un ragflaenorol. Dim ond mewn perthynas â pherson anabl unigol a lle y gofynnwyd am yr addasiad y mae'n gymwys. At hynny, nid yw'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid na rheolwyr eiddo gosod wneud addasiadau i'r eiddo hwnnw.

Nid yw'r Ddeddf yn gymwys i weithgynhyrchu na chynllunio cynhyrchion am nad ydynt yn ymwneud â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Byddai gan y DU bryderon ynglŷn ag unrhyw ofynion i gymhwyso darpariaethau'r Gyfarwyddeb, yn enwedig y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol, at weithgynhyrchwyr nwyddau neu gynhyrchion. Byddai'n anodd nodi addasiadau rhesymol a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i eitem a weithgynhyrchwyd gael ei defnyddio gan amrywiaeth o bobl gydag amrywiaeth o namau gwahanol. Byddai hefyd yn rhoi gweithgynhyrchwyr yn y DU o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â'r rhai mewn gwladwriaethau y tu allan i'r UE.

Mae'r Ddeddf yn darparu nad yw addasiadau rhesymol i gerbydau trafndiaeth yn cynnwys camau a fyddai'n golygu addasu neu dynnu un o nodweddion cerbyd, a hynny am fod y Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu safonau dylunio hygyrchedd penodol ar gyfer cerbydau trafndiaeth. Mae rheoliadau hygyrchedd ar waith ar gyfer bysiau, coetsys a cherbydau rheilffyrdd ac mae dyddiadau terfynol wedi cael eu pennu pryd y bydd yn rhaid i bob cerbyd gydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Mae Safonau Technegol Ewropeaidd ynglŷn â hygyrchedd bellach wedi disodli safonau'r DU ar gyfer cerbydau rheilffyrdd trwm. Nid yw hygyrchedd cerbydau trafndiaeth eraill, megis tacsis, awyrennau a llongau, yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd.

Noda Erthygl 4.3 o'r Gyfarwyddeb: 'this Directive shall be without prejudice to the provisions of Community law or national rules covering the accessibility of particular goods or services.' Byddai hyn yn caniatáu i safonau hygyrchedd y DU neu'r UE gyd-fodoli â'r Gyfarwyddeb. Wrth weithredu'r Gyfarwyddeb hon, byddai Llywodraeth y DU am sicrhau bod ymagwedd gyfredol y Ddeddf yn parhau fel y bydd cydymffurfiaeth â'r safonau hyn yn ddigon i gydymffurfio ag Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb.

Cwestiynau:

Gweithgynhyrchu a dylunio cynhyrchion

- 8) A ddylai prosesau gweithgynhyrchu a dylunio cynhyrchion gael eu cwmpasu gan ofynion y Gyfarwyddeb?
- 9) Pa anawsterau y gallech eu rhagweld?

Cerbydau trafndiaeth

- 10) A ydych yn cefnogi'r cynnig y dylai Erthygl 4 fod yn gymwys i gerbydau trafndiaeth nad ydynt wedi'u cwmpasu gan reoliadau hygrychedd penodol?

- 11) A oes gennych bryderon ynglŷn â'r cynnig? Eglurwch pam.

Gellid dehongli bod y cynnig yn golygu y dylai hygrychedd drwy ragflaenori fod yn gymwys mewn perthynas ag eiddo newydd ac eiddo sy'n bodoli eisoes.

- 12) A ydych yn cefnogi'r cynnig? Eglurwch pam.

- 13) A oes gennych bryderon ynglŷn â'r cynnig? Eglurwch pam.

Gellid dehongli bod y cynnig yn golygu y dylai'r gofyniad i gymryd camau hwyluso rhesymol ar gyfer pobl anabl mewn achos penodol ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid a rheolwyr eiddo gosod wneud addasiadau i'r eiddo hwnnw.

- 14) A ydych yn cefnogi'r cynnig hwn? Eglurwch pam.

- 15) A oes gennych bryderon ynglŷn â'r cynnig? Eglurwch pam.

Erthyglau 5 – 18

Mae croeso i chi wneud sylwadau ar erthyglau 5 – 18 sy'n debyg i Gyfarwyddbau Erthygl 13 blaenorol

Hoffem glywed barn unigolion ar Erthygl 15 yn benodol, gan fanylu ar yr amserlen arfaethedig i weithredu'r Gyfarwydddeb.

Erthygl 5: Camau cadarnhaol

Mae'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau gadw neu addasu mesurau penodol i atal anfanteision sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gredo, anabled, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol neu wneud iawn amdanynt.

Erthygl 6: Gofynion sylfaenol

Mae'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau roi mwy o ddiogelwch nas gwarantwyd yn y Gyfarwydddeb, ac mae'n cadarnhau na ddylid lleihau'r lefel o ddiogelwch rhag gwahaniaethu a roddwyd gan Aelod-wladwriaethau eisoes wrth weithredu'r Gyfarwydddeb.

Erthygl 7: Amddiffyn hawliau

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod gweithdrefnau barnwrol a/neu weinyddol (a allai gynnwys gweithdrefnau cymodi) ar gael i bawb sy'n ystyried eu bod wedi cael cam oherwydd methiant i gymhwyso egwyddor triniaeth gyfartal, hyd yn oed ar ôl i'r berthynas lle yr honnir bod yr achos o wahaniaethu wedi codi i ben.

Mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau hefyd sicrhau y gall cymdeithasau, sefydliadau neu endidau cyfreithiol eraill, sydd â diddordeb dilys mewn sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau'r Gyfarwydddeb hon, gymryd rhan, naill ai ar ran yr achwynydd neu i'w gynorthwyo, gyda'i gymeradwyaeth, mewn unrhyw weithdrefn farnwrol a/neu weinyddol y darperir ar ei chyfer er mwyn gorfodi rhwymedigaethau o dan y Gyfarwydddeb hon.

Erthygl 8: Baich prawf

Mae'n gwrth-droi'r baich prawf arferol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gymryd y cyfryw gamau ag sydd eu hangen i sicrhau, pan fydd pobl sy'n ystyried eu bod wedi cael cam oherwydd methiant i gymhwyso egwyddor triniaeth gyfartal iddynt yn cadarnhau, gerbron llys neu awdurdod cymwys arall, ffeithiau y gellir tybio yn seiliedig arnynt bod achos o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol wedi codi, bod yn rhaid i'r atebydd brofi na fu achos o dorri'r gwaharddiad ar wahaniaethu.

Erthygl 9: Erledigaeth

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gyflwyno mesurau yn eu systemau cyfreithiol cenedlaethol i ddiogelu unigolion rhag unrhyw driniaeth anffafriol neu ganlyniad anffafriol fel ymateb i gŵyn neu gamau cyfreithiol gyda'r nod o orfodi cydymffurfiaeth ag egwyddor triniaeth gyfartal.

Erthygl 10: Lledaenu gwybodaeth

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau sicrhau bod darpariaethau a fabwysiadwyd yn rhinwedd y Gyfarwyddeb hon, a Chyfarwyddebau blaenorol, yn cael eu dwyn i sylw'r bobl yr effeithir arnynt.

Erthygl 11: Deialog gyda rhanddeiliaid perthnasol

